



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mesurau Perfformiad Cyson

Mesurau Cyflawni

Nodiadau Esboniadol i Golegau Addysg Bellach

2017/18 tablau data terfynol (data terfynol ar 20
Rhagfyr 2018)

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Trosolwg o'r Mesurau Cyflawni	1
Rhaglenni Addysg Gyffredinol	2
Rhaglenni Galwedigaethol	4
Bagloriaeth Cymru	7
Gweithgareddau Dysgu	8
Atodiad A: Enghraifft o sefyllfaoedd dysgwyr	9
Atodiad B: Geirfa	10

Cyflwyniad

- 1 Anfonwyd at bob coleg unigol drwy DEWi y tablau data terfynol ar gyfer 2017/18 yn seiliedig ar ddata terfynol LLWR ar 20 Rhagfyr 2018. Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnwys data atodol ar lefel disgyblion.
- 2 Ceir yn y nodiadau esboniadol hyn ganllawiau manwl i golegau ar gyfrifo'r ystadegau perfformiad a ddefnyddiwd o fewn tablau data terfynol 2017/18. Mae cwestiynau cyffredin hefyd ar gael, dylid eu defnyddio ochr yn ochr â'r nodiadau esboniadol hyn.
- 3 Ar gyfer 2017/18 rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol i'r tablau:
 - Mesur rhaglenni galwedigaethol –cynnwys dadansoddiad oedran;
 - Mesur Bagloriaeth Cymru –dileu'r golofn % a fethodd a chynnwys colofn % a basiodd.

Trosolwg o'r Mesurau Cyflawni

- 4 Mae'r tablau data yn cynnwys y mesurau canlynol:

Mesur Rhaglenni Addysg Gyffredinol	Tabl Data 1	▪ Cwblhau: % y dysgwyr a gwblhaodd: UG (neu gyfwerth); A2 (neu gyfwerth); a'r rhaglen ddwy flynedd lawn
		▪ Cadw: % y dysgwyr a gadwyd ar y rhaglen ddwy flynedd lawn (o UG i A2 (neu gyfwerth))
		▪ Cyflawniad: % y dysgwyr sy'n cyflawni 3 (neu fwy) A2 (neu gyfwerth) ar raddau A*-A, A*-C ac A*-E
Mesur rhaglenni galwedigaethol	Tabl Data 2a i 2d: Lefelau 1 i 3	▪ Cwblhau: % y dysgwyr a wnaeth gwblhau'r rhaglen (yn ôl lefel)
		▪ Cyflawniad: Y gyfradd lwyddo (%) ar gyfer y prif gymwysterau
	Tabl Data 2e: Lefel mynediad/cyn-mynediad	▪ Cwblhau: % y dysgwyr wnaeth gwblhau'r rhaglen
		▪ Cyflawniad: Y gyfradd lwyddo (%) ar gyfer pob cymhwyster
Mesur Bagloriaeth Cymru	Tabl Data 3a: Sylfaen (lefel 1)	▪ Cwblhau: % y dysgwyr a gwblhaodd y rhaglen Bagloriaeth Cymru gyffredinol (yn ôl lefel)
	Tabl Data 3b: Cenedlaethol (lefel 2)	▪ Cwblhau: % y dysgwyr a gwblhaodd y Dystysgrif Her Sgiliau (yn ôl lefel)
	Tabl Data 3c: Uwch (lefel 3)	▪ Cyflawniad: % y dysgwyr a gyflawnodd Bagloriaeth Cymru (yn ôl lefel)
		▪ Cyflawniad: % y dysgwyr a

		<i>gyflawnodd bob gradd o'r Dystysgrif Her Sgiliau (yn ôl lefel)</i>
Mesur Gweithgarwch Dysgu	Tabl Data 4: Safon Uwch	Cyflawniad: % y gweithgareddau dysgu ar raddau A*-A, A*-C ac A*-E yn ôl maes pwnc

- Mae'r data ar gyfer y tablau data yn deillio o'r LLWR. Y dyddiad cau terfynol ar gyfer data 2016/17 (h.y. data lefel UG yn y mesur addysg gyffredinol) oedd 18 Rhagfyr 2017, a'r dyddiad cau terfynol ar gyfer data terfynol 2017/18 oedd 20 Rhagfyr 2018. Mae pob cyfeiriad yn y ddogfen hon sy'n dechrau gyda 'LP', 'LA' neu 'AW' yn cyfeirio at feysydd LLWR.
- Mae ffigurau cyfartalog cenedlaethol 2017/18 wedi'u cynnwys yn y tablau data; maent hefyd i'w cael drwy ddolen hon:
<https://llyw.cymru/mesurau-perfformiad-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-cyflawniad-awst-2017-i-gorffennaf-2018>

Rhaglenni Addysg Gyffredinol

- Nod tabl data 1 yw dangos cyfraddau cwblhau, cadw a chyflawniad dysgwyr ar raglenni addysg gyffredinol **dros ddwy flynedd**. Y rheswm am hyn yw bod dysgwyr sy'n dechrau ar raglen Safon Uwch yn bwriadu cwblhau'r rhaglen ddwy flynedd (sy'n cynnwys nifer o gymwysterau UG ac A2 neu gyfwerth) fel arfer. Mae'r tabl data'n cynnwys cyfraddau cwblhau ar ddiwedd blwyddyn un hefyd i gydnabod y dysgwyr sy'n cwblhau eu blwyddyn UG ond nad ydynt yn dychwelyd i wneud yr ail flwyddyn o astudiaeth (gweler tabl data 1a). Mae canlyniadau wedi'u cynnwys ar gyfer blwyddyn A2 hefyd, i roi 'cipolwg' o berfformiad y flwyddyn honno (gweler tabl data 1b).
- Mae'r mesurau rhaglenni'n cynnwys dysgwyr ar raglenni llawn amser yn unig (felly er enghraifft, mae oedolion sy'n gwneud dosbarth nos Safon Uwch wedi'u heithrio o'r mesurau'r rhaglenni). Y rheswm am hyn yw bod y mesurau'n seiliedig ar raglenni dysgu y gellir eu cymharu, ac ni ellir gweithredu hyn yn gyson gyda dysgwyr rhan-amser.
- Mae'r cohort dysgwyr ar gyfer cyfrifiadau'r rhaglen yn deillio o LP73 ac LP74. Y cohort dysgwyr ar gyfer cyfrifiadau'r rhaglen UG yw unrhyw ddysgwr a ymrestrodd yn 2016/17 ar raglenni sy'n cynnwys tri gweithgaredd dysgu neu fwy ar lefel UG (neu gyfwerth) h.y. codau rhaglen (LP74) sy'n dechrau gyda '0013', '0014' a '0015'.
- Pan fo gan ddysgwr nifer o raglenni nad ydynt yn gorffen o fewn 8 wythnos o fewn yr un mesur (e.e. nifer o raglenni UG, nifer o raglenni A2), bydd y rhaglen ddiweddaraf (yn ôl LP73) yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad.
- Mae dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i raglen ddysgu (mae'r dyddiad gadael yn dod o LP55) o fewn 8 wythnos i gychwyn heb gwblhau, yn cael eu trin fel rhai sy'n gadael yn gynnar ac yn cael eu heithrio o'r cyfrifiadau ar gyfer cyfraddau cwblhau,

cadw a chyflawniad (nid yw hyn yn berthnasol i raglenni lefel A2). Lle bo'n berthnasol, mae'r tablau data'n cynnwys y cyfraddau gadael yn gynnar.

- 12 Mae deilliannau dysgwyr sy'n 16 oed ar ddechrau blwyddyn lefel UG a dysgwyr sy'n 17+ oed ar ddechrau blwyddyn lefel UG yn cael eu dangos ar wahân. Mae hyn ein galluogi i gymharu'r cohortau a fesurir yn well yn yr ysgolion ac mewn lleoliadau AB, ac yn adlewyrchu adborth rhanddeiliaid o'r ymgynghoriad ar y mesurau newydd. Cyfrifir grŵp oedran dysgwyr ar sail eu hoedran ar 31 Awst cyn dechrau eu rhaglen ddysgu.

- 13 Mae cyfraddau cwblhau rhaglen yn deillio o LP41 (LP41 = '01'). Caiff y gyfradd gwblhau ei diffinio fel a ganlyn:

$$\text{Cyfradd cwblhau rhaglen ddysgu} = \frac{\text{Nifer y dysgwyr a gwblhaodd raglenni dysgu}}{\text{Nifer y dysgwyr a ymrestrodd ar raglenni dysgu (ar wythnos 8)}}$$

- 14 Mae cyfraddau cadw (gweler tabl data 1b) yn dangos canran y dysgwyr lefel UG sy'n cael eu cadw i wneud ail flwyddyn o astudiaeth h.y. lefel A2. Dim ond os cofnodwyd eu bod wedi cwblhau rhaglen UG (LP41 = '01') y byddant yn cael eu dangos fel dysgwyr wedi'u cadw ac wedi dechrau A2. Mae dysgwyr a gwblhaodd raglen UG yn 2016/17 yn cael eu paru â chofnodion rhaglen A2 yn 2017/18 (h.y. y codau rhaglen sy'n cychwyn gyda '0022', '0023', '0024' a '0025'). Caiff y gyfradd gadw ei diffinio fel a ganlyn:

$$\text{Cyfradd gadw A2} = \frac{\text{Nifer y dysgwyr gyda rhaglenni UG wedi'u cwblhau a rhaglenni A2 cyfatebol}}{\text{Nifer y dysgwyr gyda rhaglenni UG wedi'u cwblhau}}$$

- 15 Os yw dysgwr yn dechrau tair rhaglen ddysgu lefel UG neu fwy (neu gyfwerth) ac yn gollwng un neu fwy o weithgareddau dysgu yn y flwyddyn ganlynol h.y. blwyddyn A2 (neu gyfwerth), ni fydd hyn yn effeithio ar y gyfradd gadw gan fod y dysgwr wedi dychwelyd yn yr ail flwyddyn. Mae **Atodiad A** yn rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd dysgwyr a sut mae rhaglenni dysgu'n cael eu trin o dan y mesur rhaglen addysg gyffredinol.

- 16 Mae cyflawniad yn fesur trothwy h.y. canran y cohort Safon Uwch ar y pwynt wyth wythnos sy'n ennill tri chymhwyster Safon Uwch neu fwy (neu gyfwerth). Mae'r trothwy'n edrych ar bopeth a gyflawnodd y dysgwr dros y ddwy flynedd. Mae hyn yn cael ei ddadansoddi yn ôl graddau A*-A, A*-C ac A*-E a enillwyd. Y prif newidynnau sy'n gysylltiedig â chaffael dangosyddion cyflawniad yw LA06, LA09, LA30, LA31, LA40 ac AW12.

- 17 Dim ond cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo yng [nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru](#) sy'n cael eu cynnwys yn y deilliannau cyflawniad. Caiff y gwerthoedd cyfraniad y cymwysterau hyn eu paru a'u defnyddio i gyfrifo'r deilliannau cyflawniad. Mae gwerthoedd cyfraniad y cymwysterau hyn wedi'u mynegi yn nhermau eu cyfwerthedd â chymwysterau TGAU/Safon Uwch a phwyntiau perfformiad, er mwyn gallu cymharu cyflawniad cymwysterau o wahanol feintiau a strwythurau graddio ar wahanol lefelau [Fframwaith Credydau a](#)

[Chymwysterau Cymru](#). Os nad yw'r cofnodion yn cyd-fynd â'r cymwysterau neu os nad oes ganddynt unrhyw bwyntiau perfformiad, caiff y cofnod ei ddileu.

- 18 Cymwysterau cyfwerth â lefel UG/A2 yw cymwysterau o faint a gwerth pwyntiau cymharol fel Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru a chymwysterau BTEC. Nid yw cymwysterau sy'n gyfwerth mewn maint â llai na hanner A2 (h.y. llai nag UG) yn cyfrif tuag at y trothwy. Gall cymwysterau rhwng hanner A2 ond llai nag A2 llawn gael eu cyfrif tuag at yr hyn sy'n gyfwerth â chymwysterau llawn, er enghraifft byddai dwy lefel UG gradd A yn cyfrif fel A2 gradd A yn y mesur 3A*-A.
- 19 Mae cymhwyster yn cael ei ddiystyru pan fo dysgwr yn ennill gradd uwch neu gymhwyster tebyg ar lefel uwch gyda'r un cod diystyru (gweler [Cymwysterau yng Nghymru](#) am y codau diystyru). Os yw cymhwyster yn cael ei ddiystyru nid yw'n cyfrif tuag at y mesurau perfformiad.
- 20 Y cohort ar gyfer cyfrifo'r mesur trothwy ar gyfer A2 (gweler tabl data 1b) yw'r dysgwyr a gwblhaodd raglenni A2 (neu gyfwerth).
- 21 Y cohort sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau ar gyfer y **mesur dwy flynedd** ar gyfer cyfraddau cwblhau a chyflawniad (gweler tabl data 1c) yw'r dysgwyr a oedd yn dal i ddysgu wyth wythnos ar ôl dechrau ar y rhaglenni UG. Y rheswm am hyn yw bod perfformiad yn cael ei fesur dros ddwy flynedd h.y. canran y dysgwyr a ddechreuodd UG ac aeth ymlaen i gwblhau dwy flynedd o astudiaeth, a'r deilliannau a gyflawnwyd ganddynt.
- 22 Oherwydd y ffordd y caiff cymwysterau Celf a Dylunio eu diffinio a'u cofnodi, mae'r fethodoleg wedi'i newid er mwyn cynnwys a derbyn mwy nag un cymhwyster Celf a Dylunio fel Safon Uwch ar wahân, h.y. lle mae'r codau rhaglenni [LA06] yn cyfateb i 60152904 neu LA06=60153477.

Rhaglenni Galwedigaethol

- 23 Mae tablau data 2 yn darparu deilliannau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol sy'n cael eu mesur dros flwyddyn. Hynny am fod y mwyafrif o'r rhaglenni galwedigaethol yn seiliedig ar un cymhwyster mawr a astudir dros flwyddyn neu ddwy flynedd (gall dysgwyr gofrestru ar gyfer blwyddyn neu ddwy flynedd ac nid oes ffordd syml o wahaniaethu rhyngddynt). Gweler paragraff 25 ar gyfer dysgwyr sy'n parhau ar yr un rhaglen yn y flwyddyn academiaidd nesaf.
- 24 Mae'r cohort dysgwyr ar gyfer cyfrifiadau'r rhaglen yn deillio o LP73 ac LP74 ac yn cynnwys dysgwyr ar raglenni amser llawn yn unig. Mae'r cohort dysgwyr yn cynnwys dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni dysgu lle mae cod y rhaglen (LP74) yn dechrau gyda '01', '02', '03', '04', '05', '06', '07', '08', '09', '11', '14' ac '15' ac eithrio dysgwyr sydd wedi cofrestru ar:
 - raglenni Datrysiadau Creadigol (bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y cohort o 2018/19).

- raglenni Prentisiaethau Iau (ni fydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y mesurau ôl-16).
- raglenni lefel 4 (ychydig iawn o ddysgwyr sydd ar y rhaglenni hyn ac felly byddai'r niferoedd yn cael eu golygu pe baent yn cael eu cynnwys).

25 Mae'r dysgwyr sydd ar y rhaglenni Peirianeg, Adeiladu a TG Uwch wedi'u cynnwys.

26 Caiff dysgwyr sydd wedi cofrestru ar raglen ac sy'n parhau ar yr un rhaglen yn y flwyddyn academaidd nesaf eu cynnwys yn y cohort ar gyfer yr ail flwyddyn yn unig (cânt eu heithrio o'r cohort ar gyfer eu blwyddyn gyntaf). Felly, mae dysgwyr a ddechreuodd yn:

- 2016/17 ac a barhaodd ar yr un rhaglen yn 2017/18 wedi'u cynnwys yn nhablau data 2017/18;
- 2017/18 ac a barhaodd ar yr un rhaglen yn 2018/19 wedi'u heithrio o dablau data 2017/18 (bydd y dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn nhablau data 2018/19).

27 Caiff dysgwyr ar raglenni Mynediad i Addysg Uwch eu nodi ar wahân (h.y. lle mae'r chweched a'r seithfed nod yng nghodau'r rhaglenni [LA06] yn 'AA'). Rydym wrthi'n ystyried ein dull o fesur deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n astudio rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch. Ond, am y tro, rydym yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol eu cynnwys yn y tabl a defnyddio'r un fethodoleg â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer rhaglenni eraill ar lefel 3.

28 Lle mae dysgwr yn astudio mwy nag un rhaglen ar yr un lefel ac nad ydynt yn dod i ben o fewn 8 wythnos (e.e. mwy nag un rhaglen alwedigaethol ar Lefel 3), y rhaglen fwyaf diweddar (yn ôl LP73) fydd yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad.

29 Caiff dysgwyr sy'n gadael rhaglen ddysgu (mae'r dyddiad gadael yn deillio o LP55) heb ei cwblhau o fewn 8 wythnos ar ôl ei dechrau, eu trin fel dysgwyr sy'n gadael yn gynnar a'u heithrio o'r cyfrifiadau ar gyfer cyfraddau cwblhau a chyflawniad. Lle'n berthnasol, mae'r tablau data'n cynnwys y cyfraddau gadael yn gynnar.

30 Mae cyfraddau cwblhau rhaglen yn deillio o LP41 (LP41 = '01'). Diffinnir cyfradd cwblhau fel a ganlyn:

$$\text{Cyfradd cwblhau rhaglen ddysgu} = \frac{\text{Nifer y dysgwyr sydd wedi cwblhau rhaglen ddysgu}}{\text{Nifer y dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglen ddysgu (ar ôl 8 wythnos)}}$$

31 I nodi cyflawniad cyffredinol dysgwr mewn rhaglenni galwedigaethol ar Lefelau 1 i 3, mae'r tabl data'n dangos y gyfradd lwyddo ar gyfer y prif gymwysterau. Mae'r prif gymwysterau'n deillio o LA47 (h.y. LA47 = '05'). Caiff cymwysterau academaidd a ddarperir fel rhan o raglenni galwedigaethol eu cynnwys os ydynt wedi'u cofnodi fel prif gymwysterau. Dim ond cymwysterau cymeradwy yng

[nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru](#) sy'n cael eu cynnwys, ac eithrio dysgwyr sy'n astudio Diploma Mynediad i Addysg Bellach nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata hon.

32 Caiff pob gweithgaredd dysgu sydd wedi'u cofnodi fel prif gymwysterau ac yng nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (neu wedi'u cofnodi fel cymwysterau Mynediad i Addysg Uwch) eu cynnwys, ac eithrio:

- Gweithgareddau a gofnodwyd fel rhai na ellir eu hasesu;
- Gweithgareddau a gofnodwyd fel rhai generig yn LA06;
- Gweithgareddau y disgwyliwyd iddynt bara am 24 wythnos neu fwy ac a ddaeth i ben heb eu cwblhau o fewn 8 wythnos ar ôl eu dechrau (caiff y rhain eu trin fel achosion lle gwnaeth dysgwyr adael yn gynnar);
- Gweithgareddau a gofnodwyd fel 'trosglwyddo' h.y. LA31 = '4'.

33 Mae'r mesur cyflawniad ar gyfer rhaglenni lefel Mynediad/Cyn-mynediad yn seiliedig ar gyfradd lwyddo ar gyfer pob cymhwyster. Mae pob gweithgaredd dysgu a gofnodwyd wedi'u cynnwys ac eithrio:

- Gweithgareddau a gofnodwyd fel rhai na ellir eu hasesu h.y. LA40 = '0'.
- Gweithgareddau y disgwyliwyd iddynt bara am 24 wythnos neu fwy ac a ddaeth i ben heb eu cwblhau o fewn 8 wythnos ar ôl eu dechrau (caiff y rhain eu trin fel achosion lle gwnaeth dysgwyr adael yn gynnar);
- Gweithgareddau a gofnodwyd fel 'trosglwyddo' h.y. LA31 = '4'.

34 Y prif newidynnau ar gyfer pennu'r dangosyddion cyflawniad yw LA06, LA09, LA31, AW23 a hefyd LA47 ar gyfer llwyddiant yn y prif gymwysterau.

35 Caiff cyfradd lwyddo cymhwyster ei gyfrif fel a ganlyn:

$$\text{Y gyfradd lwyddo mewn gweithgaredd dysgu}^1 = \frac{\text{Nifer y Gweithgareddau Dysgu Asesadwy a Enillwyd}}{\text{Nifer y gweithgareddau dysgu a ddaeth i ben ac yr oedd modd eu hasesu}}$$

Bagloriaeth Cymru

36 Mae tabl data 3 yn darparu deilliannau cwblhau a chyflawniad dysgwyr sy'n astudio Bagloriaeth Cymru. Mae hwn wedi'i ddadansoddi yn ôl lefel h.y. Sylfaen (gweler tabl data 3a), Cenedlaethol (gweler tabl data 3b) a Bagloriaeth Cymru Uwch (gweler tabl data 3c). Mae deilliannau cwblhau a chyflawniad wedi'u cynnwys ar gyfer y rhaglen Bagloriaeth Cymru gyffredinol ac ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau.

¹ Bydd yr enwadur a'r rhifiadur yn cynnwys prif gymwysterau ar gyfer rhaglenni ar lefel 1 ac uwch yn unig.

37 Mae'r cohort dysgwyr ar gyfer cyfrifiadau'r rhaglen Bagloriaeth Cymru gyffredinol a'r Dystysgrif Her Sgiliau'n dod o LA06 a LA09. Gweler [Canllawiau Bagloriaeth Cymru ôl-16: cofnodi a mesur deilliannau](#) i gael gwybodaeth am gofnodi Bagloriaeth Cymru.

38 Gan fod Bagloriaeth Cymru Uwch yn rhaglen ddwy flynedd mae deilliannau'n cael eu mesur ar y sail hon, a'u hadlewyrchu wrth gyfrifo deilliannau h.y. mae'r cohort yn cynnwys dysgwyr a ddechreuodd blwyddyn 1 y Dystysgrif Her Sgiliau yn 2016/17 (y rhai sy'n dal i ddysgu ar y pwynt 8 wythnos). Mae'r dysgwyr hyn yn cael eu cymharu â'r Bagloriaeth Cymru gyffredinol a gofnodwyd yn 2017/18. Bydd cyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau'n cael ei nodi hefyd.

39 Pan fo gan ddysgwr nifer o weithgareddau dysgu Bagloriaeth Cymru neu Dystysgrif Her Sgiliau nad ydynt yn dod i ben o fewn 8 wythnos ar yr un lefel, bydd y gweithgaredd diweddaraf (yn ôl LA09) yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad.

40 Mae cwblhau'n cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

$$\text{Cyfradd cwblhau} = \frac{\text{Nifer y dysgwyr a gwblhaodd weithgaredd dysgu}}{\text{Nifer y dysgwyr wedi ymrestru ar weithgaredd dysgu (ar wythnos 8)}}$$

41 Ni ddangosir bod dysgwr wedi cwblhau rhaglen Bagloriaeth Cymru gyffredinol os na chofnodwyd ei fod wedi cwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau (h.y. LA31 = '02').

42 Mae'r deilliannau cyflawniad ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau'n seiliedig ar y ganran sy'n cyflawni pob gradd gan ddefnyddio'r strwythur graddio ar gyfer y lefel benodol honno o'r Dystysgrif. Y cohort sydd wedi'u cynnwys ar gyfer cyflawniad yw'r dysgwyr a oedd yn dysgu wyth wythnos ar ôl dechrau gweithgaredd dysgu'r Dystysgrif.

43 Caiff deilliannau cyflawniad Bagloriaeth Cymru gyffredinol eu cynnwys hefyd; caiff y rhain eu dangos fel cyfradd basio gyffredinol ar ffurf canran. Y cohort sydd wedi'i gynnwys yn y deilliannau cyflawniad yw'r dysgwyr a oedd yn dysgu wyth wythnos ar ôl dechrau gweithgaredd dysgu blwyddyn 1 Dystysgrif Her Sgiliau.

Gweithgareddau Dysgu

44 Mae tabl data 4 yn darparu deilliannau cyflawniad ar gyfer cymwysterau lefel A2 yn ôl maes pwnc.

45 Mae'r tabl data'n cynnwys holl lefelau A2 waeth beth fo'r rhaglen, beth sy'n cael ei gofnodi yn LA47, a yw'n llawn amser neu'n rhan-amser, oedran dysgwyr ac a ydynt yn ailsefyll.

46 Mae'r cohort ar gyfer cyfrifiadau gweithgareddau dysgu'n dod o LA06, LA10 a LA30 ar hyn o bryd (fel y mesurau perfformiad cyfredol). Mae lefel a math y cymhwyster a maes pwnc y sector yn dod o LA06, LA21 a LA22.

47 Mae'r cyfrifiadau cyflawniad yn seiliedig ar nifer yr arholiadau a gafodd eu sefyll neu nifer yr asesiadau a wnaed yn 2017/18 (AW12 = mae 'NATT', 'WDRN', 'NENT', 'PART' a 'X' wedi'u heithrio).

Atodiad A: Enghreifftiau o sefyllfaoedd dysgwyr

Sefyllfaoedd	
(i) Mae dysgwr yn dechrau rhaglen ddysgu pedwar pwnc UG (neu gyfwerth) ac yn gollwng un gweithgaredd dysgu yn y flwyddyn ganlynol h.y. blwyddyn A2 (neu gyfwerth).	Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys ym mesur y rhaglen addysg gyffredinol; yn cael ei ddangos fel cwblhawr UG ac un wedi'i gadw ar gyfer A2. Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys yn y mesur trothwy cyflawniad hefyd gan ei fod yn gwneud 3 pwnc A2 (neu gyfwerth).
(ii) Mae dysgwr yn cwblhau rhaglen ddysgu tri phwnc UG (neu gyfwerth). Y flwyddyn ganol mae'n gollwng gweithgaredd dysgu ac yn gwneud rhaglen gweithgaredd dysgu dau bwnc A2.	Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys ym mesur y rhaglen addysg gyffredinol; yn cael ei ddangos fel cwblhawr UG a'i gadw ar gyfer A2 ond yn negyddol ar gyfer y deiliant cyflawniad gan nad yw'n gwneud 3 pwnc A2 (neu gyfwerth).
(iii) Mae dysgwr yn cwblhau rhaglen ddysgu tri phwnc UG (neu gyfwerth) mewn un flwyddyn academiaidd ond nid yw'n ennill y graddau gofynnol. Mae'n dechrau rhaglen ddysgu tri phwnc UG (neu gyfwerth) arall yn y flwyddyn academiaidd ganlynol.	Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys ym mesur y rhaglen addysg gyffredinol; yn cael ei ddangos fel cwblhawr UG ond na chafodd ei gadw ar gyfer A2. <i>Y flwyddyn academiaidd ganlynol:</i> Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys eto ym mesur y rhaglen addysg gyffredinol.
(iv) Mae dysgwr yn dechrau rhaglen ddysgu tri phwnc UG (neu gyfwerth) ond yn gadael ar ôl wyth wythnos am resymau personol. Mae'n dechrau rhaglen ddysgu tri phwnc UG (neu gyfwerth) arall yn y flwyddyn academiaidd ganlynol.	Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys ym mesur y rhaglen addysg gyffredinol; yn cael ei ddangos fel un na wnaeth gwblhau UG ac na chafodd ei gadw ar gyfer A2. <i>Y flwyddyn academiaidd ganlynol:</i> Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys eto ym mesur y rhaglen addysg gyffredinol.
(v) Mae dysgwr yn cwblhau rhaglen A2 (neu gyfwerth) ond nid yw'n cael y graddau gofynnol i fynd i brifysgol. Mae'n dychwelyd i wneud rhaglen A2.	Ni fyddai'r dysgwr yn cael ei gynnwys ym mesur y rhaglen addysg gyffredinol ar gyfer yr ail raglen A2 (mae'r mesur yn edrych ar raglenni UG mewn un flwyddyn ac yn cymharu â rhaglenni A2 yn y flwyddyn ganlynol). Yn yr achos hwn ni fyddai yna raglen UG gyfatebol yn y flwyddyn flaenorol. Bydd y gweithgareddau dysgu'n cael eu cynnwys yn y mesur gweithgaredd dysgu Safon Uwch ar gyfer y ddwy flynedd A2.
(vi) Mae dysgwr yn cwblhau ac yn ennill cymhwyster A2 wrth astudio rhaglen UG (a chyfwerth) yna'n mynd ymlaen i gyflawni dau bwnc A2 arall yn y flwyddyn ganlynol.	Mae'r mesur trothwy addysg gyffredinol yn edrych ar bopeth a gyflawnwyd gan y dysgwr dros ddwy flynedd ei astudiaethau, felly byddent yn cyfrif fel cyflawni tri phwnc Safon Uwch.

Atodiad B: Geirfa

Cwblhau – faint wnaeth gwblhau o'r holl ddysgwyr a ddechreuodd ac a oedd yn dal i ddysgu ar y pwynt wyth wythnos (h.y. roedd y dysgwr yn dal yno ar ddiwedd y cwrs waeth beth fo'i gyrhaeddiad).

[Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru](#) – cwmpasu credydau a chymwysterau amrywiol y gellir eu dyfarnu i ddysgwyr sy'n gwneud amrywiaeth eang o ddysgu, yn cynnwys hyfforddiant cyffredinol a galwedigaethol.

Diystyru – mae cymhwyster yn cael ei ddiystyru pan fo dysgwr yn ennill gradd uwch neu gymhwyster tebyg ar lefel uwch gyda'r un cod diystyru (gweler [Cymwysterau yng Nghymru](#) am y codau diystyru).

Gadäwr cynnar – mae dysgwyr sy'n rhoi'r gorau i raglen ddysgu o fewn 8 wythnos i gyhwyn heb gwblhau, yn cael eu trin fel rhai sy'n gadael yn gynnar.

Cohort dysgwyr – y grŵp o ddysgwyr sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau.

Gweithgareddau dysgu – cyrsiau (fel Safon Uwch neu NVQ) – gall dysgwr wneud nifer o weithgareddau dysgu gwahanol.

Rhaglen ddysgu – pecyn dysgu sydd â phwrpas clir a deilliannau wedi'u cynllunio, a ddarperir drwy brif gymhwyster a gweithgareddau dysgu ychwanegol, fel y nodir yn y [Fframwaith Cynllunio a Chyllido](#).

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) – Y dull o gofnodi data am ddysgwyr, eu rhaglenni, gweithgareddau a dyfarniadau a gyflwynir gan golegau AB i Lywodraeth Cymru.

Cyfartaledd cenedlaethol – y gyfradd gyfartalog a gyflawnir yn holl golegau addysg bellach a dosbarthiadau chwech Cymru.

Deilliant – Dyfarnu cymhwyster cymeradwy gan gorff dyfarnu.

Cod rhaglen – y cod a ddefnyddir i adnabod rhaglen ddysgu benodol.

Cymhwyster – dyfarniad gan gorff dyfarnu allanol yn dilyn cyfnod o astudiaeth wedi'i ddilysu a'i ennill drwy asesiad a/neu arholiadau.

[Cronfa Ddata Cymwysterau yng Nghymru](#) – mae'n cynnwys manylion yr holl gymwysterau sy'n cael eu cymeradwyo neu eu dynodi ar gyfer addysgu yng Nghymru i ddysgwyr o dan 19 oed, ac eithrio addysg uwch.

Cadw – faint o'r holl ddysgwyr sy'n cwblhau blwyddyn gyntaf rhaglenni addysg gyffredinol h.y. UG (neu gyfwerth) sy'n dychwelyd am ail flwyddyn o astudiaeth h.y. blwyddyn Safon Uwch (a chyfwerth).